

Efe

Cynhelir Pwyllgor Ymddiriedolwyr Cynllun Efe yng nghapel Caeathro, am 7.00 o'r gloch nos Lun, Ebrill 7

Cyfarfod Pregethu Cefnywaun

Y Parchg Trefor Jones, Caernarfon fydd yn pregethu yng Nghyfarfod Pregethu Cefnywaun nois Sul y Pasg, Ebrill 20 am 5.00 o'r gloch.

Cyfarfod Chwarter

Fydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Tabernacl, Llanrwst nos Fercher, Ebrill 30, am 7.00 o'r gloch.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Ebrill 9: Bydd Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 6

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ebrill 13 (Sul y Blodau)

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Ebrill 20 (Sul y Pasg)

Cyfarfod Pregethu Cefnywaun

5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Ebrill 27

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Dydd Sul, Ebrill 13: Bydd yr Ysgol Sul am 10.15. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Ebrill 8: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Fawrth, Ebrill 8: Cynhelir Swper Blynnyddol y Gymdeithas Undebol yng Ngwesty'r Dolbadarn am 7.00 o'r gloch.

Nos Fercher, Ebrill 9: Bydd Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ebrill 11: Criw CIC yn mynd i'r Bala i Noson Basg. Bws yn cychwyn am 4.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 13: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Ni fydd Ysgol Sul gan ei bod yn wyliau'r ysgol.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ebrill 13: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 6

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Ebrill 13 (Sul y Blodau)

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

DIM YSGOL SUL

Ebrill 20 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. a 5.00 p.m.
- Y Parchg Cath Williams

DIM YSGOL SUL

Ebrill 27

10.30 a.m. - OEDFA DEULU
5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 586 – Dydd Sul, 06 Ebrill 2014

Tair egwyddor

Beth am gwis bach i ddechrau heddiw? Am bwy ydw i'n sôn? Eglwyswraig, a aned yn Wolverhampton ond a fagwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr; addysgwyd yn Ysgol Gyfun Brynteg (yr un ysgol â Carwyn Jones, y Prif Weinidog, Nicole Cooke, y bencampwraig Olympaidd; Gavin Henson a sawl chwaraewr rygbi rhyngwladol arall); Aelod Seneddol Basingstoke ers 2005; Ysgrifennydd Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn Llywodraeth San Steffan ers 2012; a'r wraig a siaradodd am 32 o eiliadau yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Iau diwethaf.

Pwy yw hi? Maria Miller. Gorfu iddi ymddiheuro ddydd Iau 'am ei hagwedd at ymholiadau'r comisiynydd'. Roedd a wnelo'r holl beth ag ymchwiliad i'r costau yr oedd hi wedi eu hawlio fel aelod seneddol. Anghofiwch fanylion yr achos hwnnw am y tro. Nid be wnaeth Mrs Miller, neu be na wnaeth hi sy'n gwneud i mi sôn amdani heddiw ond yr hyn a ddywedwyd ar ddiwedd yr adroddiad amdani ar Newyddion Deg nos Iau. Doedd dim peryg, meddid, iddi gollu ei lle yn y cabinet (er bod yr wrthblaid yn galw am hynny). Ond, meddai'r gohebydd, fe allai gael ei 'symud'. A'r awgrym oedd mai i'r Swyddfa Gymreig y byddai hynny!

Ac roedd rhaid i mi chwerthin! Roedd y peth mor drist. Be wnewch chi ag aelod seneddol sydd wedi gorfod deud sori'n gyhoeddus pan yw'r gwrthwynebwyr yn galw am ei hymddiswyddiad? Wel, ei hanfon i'r Swyddfa Gymreig wrth gwrs. Mae hynny cystal cosb â dim.

Os oedd unrhyw wirionedd yn hyn, mae dirmyg Llywodraeth Llundain at Gymru yn gwbl amlwg. Nid yn erbyn Mrs Miller y mae fy nghwyn, ond yn erbyn pwy bynnag a awgrymodd y byddai Cymru'n lle da i anfon rhywun sy'n dipyn o embaras i'r Llywodraeth ar hyn o bryd.

Ond beth sydd a wnelo hyn oll â'r Ffydd Gristnogol, a pham ei drafod yn *Gronyn* heddiw? Os yw'n wir, mae'n enghraifft dda o ymddygiad a ddylai fod yn annerbyniol i Gristnogion. Yn gyntaf, gweithredu heb feddwl am deimladau pobl eraill. Yn ail, disgwyl i bobl eraill oddef rhywbeth na fydddech chi eich hun yn ei oddef – *mae'n iawn iddyn nhw, ond nid i ni!* Ac yn drydydd, methu amddiffyn cydweithiwr pan fo eraill yn galw am ei gwaed. Os yw Mrs Miller yn ddigon da i'r Swyddfa Gymreig fe ddylai fod yn ddigon da i'w swydd bresennol hefyd.

Dyna dair egwyddor a ddylai gael eu parchu gan ddisgyblion Grist: ystyried buddiannau pobl eraill ym mhob peth a wnawn; bod yn anfodlon gweld pobl eraill mewn amgylchiadau na fyddem ni ein hunain yn eu goddef; a gwarchod cyfeillion a chydweithwyr pan fo eraill yn ymosod arnynt, hyd yn oed os ydynt wedi gwneud pethau na allwn ni ein hunain eu cymeradwyo. Yn sicr, maen nhw'n egwyddorion a ddylai gael eu dilyn o fewn cymdeithas yr Eglwys Gristnogol, lle mae parch a chymorth a maddeuant yn teyrnasu, er gogoniant i Dduw.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul unwaith eto. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Neiniolen am 9.30 o'r gloch; bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch, a byddaf yn arwain yr oedfa gymundeb am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch yn Capel Coch gan Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. A bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg W R Williams, Y Felinheli. Diolch i'r ddau ohonynt am eu gwasanaeth unwaith eto.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhaliwyd Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch nos Lun ddiwethaf, Mawrth 31, dan lywyddiaeth yr Is-gadeirydd, Miss Marian Jones. Diolch i bawb a ddaeth yno.

Bore coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Ebrill 8 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Cymdeithas Undebol Llanberis

Cynhelir Swper Blynnyddol Cymdeithas Undebol Llanberis yng Ngwesty'r Dolbadarn, am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Ebrill 8.

Y gwŕ gwadd fydd y Canon Idris Thomas, Deiniolen. Edrychwn ymlaen at ei groesawu ef a Mrs Thomas i'r swper.

Noson Basg

Bydd criw CIC yn mynd i'r Bala nos Wener yr wythnos hon, Ebrill 11 lle byddan nhw'n cael cwmni criw o bobl ifanc o wahanol ardaloedd yn y Gogledd i ddatlu'r Pasg.

Trefnwyd y noson gan griw Coleg y Bala a'r gweithwyr ieuentid sydd yn y gwahanol ardaloedd.

Bu'r nosweithiau hyn sy'n dod â'r bobl at ei gilydd yn llwyddiant o'r blaen. Mi gofiwn noson debyg adeg Nadolig 2012, er enghraifft, pan ddaeth bron i 100 o ieuentid at ei gilydd.

Bydd bws yn cychwyn o Lanberis yn brydlon am 4.30 o'r gloch. Cewch ragor o fanylion gan Andrew.

Cynllun Efe

Un o Gant ac Un o Fil

Fe gofiwch i ni wneud yr Apêl hon am gymorth i Gynllun Efe yr adeg yma'r llynedd. Mae blwyddyn wedi mynd heibio ac felly dyma gyflwyno'r apel am eleni eto.

I ddechrau, diolch i bawb a gyfrannodd y llynedd. Mae rhai ohonoch wedi trefnu i wneud eich cyfraniadau trwy'r banc yn fisol neu'n flynyddol, ac yn amlwg yr ydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol.

Byddwn yn ddiolchgar os gall y rhai ohonoch a gefnogodd Apêl Un o Fil neu Un o Gant y llynedd wneud yr un peth eto. I'ch atgoffa, felly, yr ydym yn gofyn i bobl gyfrannu £20 y flwyddyn fel rhan o gynllun 'UNO FIL' neu £100 y flwyddyn at gynllun 'UN O GANT'.

Os cawn ni gefnogaeth dda yn eglwysi'r ardal i'r apel hon bydd modd i ni barhau i gynnal swydd ein gweithiwr ieuentid ymhellach na'r flwyddyn bresennol a ddaw i ben ddiwedd Medi eleni.

Mae ffurflenni i'w cael yn y capeli, a gallwch roi eich cyfraniad i'r Gweinidog os gwelwch yn dda. Bydd yr Apêl hon yn cael ei gwneud dros y mis nesaf.

Gobeithio'n fawr y cawn eich cefnogaeth eto. Roedd yr ymateb y llynedd yn hael ac yn galondid mawr i ni sy'n arwain gwaith Cynllun Efe. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r Gweinidog.

Pasg Efe

Ar gyfer plant
Blwyddyn 3–6

Yn Ysgol Gynradd Llanrug

Dydd Llun, Ebrill 14

10.00 a.m. – 1.30 p.m.

Manylion pellach gan
Andrew Settatre

Cwrs Coleg y Bala i Blant yr Ofalaeth

Plant 8–12 oed
(Blwyddyn 3–6)

Nos Wener, Mai 16
– Dydd Sul, Mai 18

Manylion pellach gan y
Gweinidog

Cymdeithas Undebol Deiniolen

Y Swper Blynnyddol fydd y cyfarfod nesaf, yng Nghlwb Golff Caernarfon, nos Lun, Ebrill 28.